

## Pennod 2: Tuag at God Cynllunio Newydd i Gymru

### CYFLWYNIAD

- 2.1 Mae'r Bennod hon yn crynhoi'r angen am ddiwygio'r maes hwn o'r gyfraith ac, yn erbyn y cefndir hwnnw, sut rydym wedi llunio'r argymhellion yn hwn, ein Hadroddiad Terfynol.

### CYFRAITH CYNLLUNIO YNG NGHYMRU

#### Cefndir: cyn 2006

- 2.2 Yn ein Papur Ymgynghori, ystyriwyd sefyllfa bresennol y gyfraith sy'n llywodraethu cynllunio gwlad a thref yng Nghymru. Adroddwyd hanes y ddeddfwriaeth, gan nodi mai tan 2007 roedd deddfwriaeth sylfaenol ar gynllunio wedi'i chadw i Senedd y Deyrnas Unedig yn San Steffan yn unig.<sup>1</sup>
- 2.3 Y Ddeddf arwyddocaol gyntaf oedd Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1947, a ddaeth i rym ar 1 Gorffennaf 1948, bron saith deg mlynedd yn ôl yn union. Cafodd ei diwygio sawl gwaith, a'i disodli maes o law gan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1962, a ddiwygiwyd yn ei thro (yn arbennig gan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1968) ac yna'i disodli gan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1971. Gwnaed newidiadau pellach gan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref (Diwygio) 1972, Deddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980, a Deddf Tai a Chynllunio 1986.
- 2.4 Yna, gwahoddwyd Comisiwn y Gyfraith gan y Llywodraeth i gydgrynhoi deddfwriaeth gynllunio unwaith eto, gan ymgorffori nifer fach o fân ddiwygiadau technegol y tro hwn.<sup>2</sup> O ganlyniad i'r ymarfer hwnnw cafodd pedwar statud newydd eu deddfu – Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990,<sup>3</sup> Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990 a Deddf Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) 1990. Cawsant eu diwygio bron ar unwaith gan Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991 (yn bennaf mewn perthynas â gorfodi) a Deddf yr Amgylchedd 1995 (mwynau a pharciau cenedlaethol) – gyda'r olaf yn dod i rym ar 23 Tachwedd 1996.
- 2.5 Roedd pob un o'r darnau o ddeddfwriaeth gynllunio a nodir uchod, a bron bob darn o is-ddeddfwriaeth gysylltiedig, yn gymwys i Gymru yn yr un modd ag yr oedd i Loegr. Ac roedd polisi yr un fath yn y ddwy wlad tan y 1990au.
- 2.6 Yna, cyflwynodd Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 system unedol o lywodraeth leol, ac iddi oblygiadau o ran gweinyddu'r system gynllunio, o 1 Ebrill 1996. Dechreuodd polisi cynllunio cenedlaethol unigryw ymddangos yng Nghymru o

---

<sup>1</sup> Papur Ymgynghori, paragraffau 1.12 i 1.25.

<sup>2</sup> Comisiwn y Gyfraith 189, Cm 958.

<sup>3</sup> Cyfeirir ati yn yr Adroddiad hwn, fel yn ymarferol, fel y "Ddeddf Adeiladau Rhestredig".

oddeutu 1996, ac is-ddeddfwriaeth ar wahân yn llywodraethu trefniadaeth y system gynllunio yng Nghymru o ddiwedd y 1990au. O dan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 cyflwynwyd systemau gwahanol o gynllunio datblygu yng Nghymru a Lloegr.

### Cyfraith cynllunio ers 2006

- 2.7 Ers i Ran 3 ac yna Ran 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ddod i rym, Cynulliad Cenedlaethol Cymru sydd â'r cyfrifoldeb llwyr am ddeddfwriaeth gynllunio. Arweiniodd hyn at Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Deddf Llesiant) 2015, Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, a Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016.<sup>4</sup>
- 2.8 Pasiodd Senedd San Steffan Ddeddf Cynllunio 2008, a oedd yn llywodraethu'r ffordd yr ymdrinnir â phrosiectau seilwaith mawr yng Nghymru a Lloegr – ond mae'n werth nodi bod y Ddeddf yn gymwys mewn ffordd ychydig yn wahanol ar y naill ochr a'r llall i'r ffin. Gwnaeth deddfwriaeth arall a basiwyd yn San Steffan effeithio'n sylweddol ar gynllunio, ond dim ond yn Lloegr, gyda Deddf newydd fawr yn ymddangos bron bob blwyddyn. Cafodd rhai (ond nid pob un) o'r newidiadau a gyflwynwyd gan y Deddfau hynny eu cyflwyno yng Nghymru gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015.
- 2.9 Yn olaf, o ganlyniad i Ddeddf Cymru 2017, a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2018, mae gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â phob mater cynllunio bellach – gan gynnwys, am y tro cyntaf, yr Ardoll Seilwaith Cymunedol.
- 2.10 Oherwydd y broses ddeddfu hon sydd braidd yn dameidiog, mae bellach tua 20 o statudau sy'n llywodraethu cynllunio a materion cysylltiedig yng Nghymru a Lloegr – mewn rhai achosion sy'n gymwys mewn ffordd sylweddol wahanol yn y ddwy wlad – yn ogystal ag wyth arall sy'n gymwys yng Nghymru yn unig, a 12 sy'n gymwys yn Lloegr yn unig. Mae'r union nifer yn dibynnu ar yr hyn a ddeallir gan y term "cynllunio".
- 2.11 Yn ein Papur Ymgynghori, nodwyd bod hyn wedi arwain at god deddfwriaethol diangen o gymhleth, y mae'n anodd hyd yn oed i ymarferwyr profiadol ei ddeall a bron yn amhosibl i bobl leyg. A dim ond rhan ohono sydd ar gael yn Gymraeg. Mae natur anfoddfaol deddfwriaeth gynllunio – a oedd i'w chael yn wreiddiol mewn un gwaith dalenni rhydd un gyfrol, ond sydd bellach yn ymestyn i ddeg cyfrol<sup>5</sup> – wedi bod yn hysbys gan ymarferwyr ers blynnyddoedd lawer. Nodwyd y problemau penodol sy'n gysylltiedig â cheisio deall y gyfraith fel y mae'n gymwys yng Nghymru mewn dadleuon yn Senedd y DU ar Fil Cymru.<sup>6</sup>

### CYNNWYS COMISIWN Y GYFRAITH

- 2.12 Yn erbyn y cefndir hwnnw, gwahoddwyd Comisiwn y Gyfraith i adolygu'r gyfraith sy'n ymwneud â chynllunio gwlad a thref yng Nghymru, a gwneud argymhellion i

---

<sup>4</sup> Papur Ymgynghori, paragraffau 1.26 i 1.44.

<sup>5</sup> *Encyclopaedia of Planning Law and Practice*, 10 cyfrol, Sweet & Maxwell.

<sup>6</sup> Papur Ymgynghori, paragraffau 1.45 i 1.75.

foderneiddio a symleiddio'r gyfraith. Edrychwyd yn benodol ar y broses rheoli datblygu, a siaradwyd ag amrywiaeth o randdeiliaid allweddol.

- 2.13 Ni welsom fod angen rhagor o ddiwygio sylfaenol wedi'i lywio gan bolisi yn y maes hwnnw. Cyflawnwyd yr ymarfer hwnnw gan y Grŵp Cynghori Annibynnol a Llywodraeth Cymru yn bennaf, gan arwain at basio Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, a darnau eraill o ddeddfwriaeth y cyfeirir atynt uchod. Fodd bynnag, mynegwyd pryder yn gyffredinol ynghylch cymhlethdod a diffyg hygyrchedd y gyfraith yn y maes hwn.
- 2.14 Felly, mewn cytundeb â Llywodraeth Cymru, cafodd y prosiect ei ail-lunio i gwmpasu'r gwaith o gydgrynhoi a symleiddio deddfwriaeth gynllunio i Gymru, gan gynnwys:
- 1) ailddatgan y gyfraith mewn un cod, fel y gellir dod o hyd iddi yn hawdd;
  - 2) gwneud addasiadau, er mwyn llunio testun wedi'i gydgrynhoi, boddhaol;
  - 3) symleiddio'r gyfraith drwy symleiddio a rhesymoli prosesau a gweithdrefnau diangen;
  - 4) cynnwys cynigion sy'n deillio o gyfraith achosion.

### **Ein hargymhellion ar ffurf a hygyrchedd y gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru**

- 2.15 Cyd-darodd yr adolygiad hwn ag ymarfer mwy eang ei gwmpas a gynhaliwyd gan Gomisiwn y Gyfraith, hefyd drwy wahoddiad Llywodraeth Cymru, i adolygu ffurf a hygyrchedd y gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru yn gyffredinol. Nododd adroddiad terfynol y Comisiwn ar y pwnc hwnnw, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2016,<sup>7</sup> fod angen i'r gyfraith fod yn glir ac yn hygyrch, ac arolygodd y rhesymau pam bod y gyfraith yng Nghymru wedi mynd yn anhygyrch – yn rhannol o ganlyniad i broblemau diffyg hygyrchedd y gyfraith sy'n effeithio ar y Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd, ond a gafodd eu gwneud yn waeth yng Nghymru oherwydd natur a phroses datganoli.
- 2.16 Er mwyn mynd i'r afael â'r problemau hyn, argymhellwyd gennym y dylai Llywodraeth Cymru fwrw ymlaen â rhaglen o godeiddio, i'w chynnal yn unol â'n hargymhellion pellach. Yn benodol, dylai deddfwriaeth y mae ei thestun o fewn cymhwysedd y Cynulliad ond sydd wedi'i gwasgaru mewn nifer o statudau gael ei dwyn ynghyd yn un darn o ddeddfwriaeth gan y Cynulliad, ynghyd â diwygiadau fel y bo'n briodol. A byddai deddfwriaeth yn y dyfodol ym maes y cod yn dod yn weithredol drwy ddiwygio'r cod.
- 2.17 Derbyniodd Llywodraeth Cymru, neu derbyniodd mewn egwyddor, bob un ond un<sup>8</sup> o'n hargymhellion. Ym mis Ebrill 2017, cyhoeddodd y Cwnsler Cyffredinol ei fod yn lansio rhaglen beilot o gydgrynhoi, codeiddio a chyhoeddi deddfwriaeth yn well. Esboniodd hefyd fod Llywodraeth Cymru yn gweld cod, nid yn unig fel darn o ddeddfwriaeth gan y Cynulliad (fel y'i rhagwelwyd gennym ar y dechrau), ond yn

---

<sup>7</sup> *Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru*, (Comisiwn y Gyfraith Rhif 366), Mehefin 2016.

<sup>8</sup> Ni dderbyniwyd argymhelliad ynglŷn â'r cyfrifoldeb am derminoleg y Gymraeg.

hytrach fel casgliad o ddeddfwriaeth sylfaenol, is-ddeddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig, y dylai'r cyfan fod ar gael gyda'i gilydd drwy borth Cyfraith Cymru.

- 2.18 Daeth y prosiect presennol yn un o elfennau'r rhaglen beilot. Os caiff ein hargymhellion yn yr Adroddiad hwn eu gweithredu, bydd yn arwain at un Ddeddf Cynllunio a fydd yn disodli pob un o'r 30 o statudau fwy neu lai sydd mewn grym yng Nghymru ar hyn o bryd; ynghyd ag is-ddeddfwriaeth a chanllawiau, gall hyn fod yn rhan ganolog o God cyntaf Cymru.

## Y PAPUR CWMPASU

- 2.19 Ar yr un pryd â chyhoeddi ein hadroddiad ar Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith, ym mis Mehefin 2016 gwnaethom gyhoeddi Papur Cwmpasu<sup>9</sup> ar y prosiect cynllunio, gan nodi ein safbwyntiau dros dro ynghylch natur a chwmpas ymarfer codeiddio a symleiddio posibl. Fe'i cyhoeddwyd ar-lein ac anfonwyd copi at amrywiaeth eang o randdeiliaid allweddol neu fe'u hysbyswyd o'i fodolaeth.<sup>10</sup>
- 2.20 Ymatebodd dros 60 o sefydliadau ac unigolion, neu gwnaethant gyfarfod â ni er mwyn trafod ei gynnwys.<sup>11</sup> Gwnaethant ddweud wrthym am y problemau a achosir gan y system bresennol, gan nodi manteision tebygol cydgrynhoi a symleiddio. Gwnaethant hefyd amrywiol bwyntiau manwl mewn perthynas â phynciau penodol.<sup>12</sup>

## Y PAPUR YMGYNGHORI

- 2.21 Ystyriwyd yn ofalus yr holl ymatebion i'r Papur Cwmpasu, a pharhawyd â'n hymchwil, mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru. Ym mis Tachwedd 2017, cyhoeddwyd Papur Ymgynghori sylweddol, *Cyfraith Cynllunio yng Nghymru*.
- 2.22 Mae dwy bennod gyntaf y Papur Ymgynghori, *Egwyddorion Cyffredinol*, yn nodi ychydig yn fanylach y deunydd rhagarweiniol a grynhoir gennym uchod. Amlinellodd y drydedd bennod ein casgliadau dros dro ynghylch cwmpas yr ymarfer codeiddio. Disgrifiodd y bedwaredd bennod natur y diwygiadau technegol yr oeddem yn eu gwneud. Mae'r penodau eraill (5 i 18) yn nodi cyfres o ddiwygiadau technegol posibl, wedi'u llunio fel cwestiynau ymgynghoriad.

### Cwmpas yr ymarfer codeiddio

- 2.23 O ran yr ymarfer codeiddio, cadarnhawyd gennym y dylai unrhyw Fil newydd gynnwys yr holl ddarpariaethau cynllunio craidd – hynny yw, y rhai sy'n ymdrin â diben y system gynllunio, y ffordd y gweinyddir y system, y broses o lunio cynlluniau, natur y datblygiad, y broses o geisio caniatâd cynllunio, rhwymediau, a gorfodi.

---

<sup>9</sup> *Cyfraith Cynllunio yng Nghymru: Papur Cwmpasu* (Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 228), Mehefin 2016 (cyfeirir ato yn yr adroddiad hwn yn syml fel "Papur Cwmpasu").

<sup>10</sup> Papur Ymgynghori, Pennod 2.

<sup>11</sup> Fe'u rhestrir yn y Papur Ymgynghori, Atodiad A. Mae dadansoddiad o'r ymatebion ar gael ar-lein.

<sup>12</sup> Nodwyd yn y penodau ar y pynciau perthnasol yn Rhan Dau o'r Papur Ymgynghori.

Byddai hyn yn cynnwys y darpariaethau yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 ar hyn o bryd, a'r rhai sydd ar wasgar mewn gwahanol statudau eraill.

- 2.24 Awgrymwyd hefyd y dylai gynnwys darpariaethau sy'n atodol i'r system rheoli datblygu – addasu a dirymu caniatâd; camau dirwyn i ben; hysbysiadau prynu; priffyrdd y mae datblygu yn effeithio arnynt; a chymhwyso at ddatblygu mwynau, ymgwymerwyr statudol a'r Goron – yn ogystal â heriau yn y llysoedd; a darparu seilwaith drwy'r Ardoll Seilwaith Cymunedol a rhwymedigaethau cynllunio.<sup>13</sup>
- 2.25 Ystyriwyd nifer o drefniadau cydsynio eraill hefyd sy'n gorgyffwrdd â'r brif system gynllunio neu'n gweithredu'n agos ochr yn ochr â hi. Felly, ystyriwyd p'un a fyddai'n bosibl ac yn ymarferol uno caniatâd cynllunio a chydsyniad adeilad rhestredig, cydsyniad ardal gadwraeth â chydsyniad heneb gofrestredig. Ystyriwyd hefyd y trefniadau arbennig sy'n ymwneud â rheoli hysbysebion awyr agored a gwaith ar goed a warchodir.<sup>14</sup>
- 2.26 Yna, ystyriwyd y gwahanol ddarpariaethau statudol sy'n ymwneud â gwella, adfywio ac adnewyddu, a geir yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a statudau cysylltiedig, gan ddod i'r casgliad y byddai'n briodol i'r Bil Cynllunio newydd gynnwys aildatganiad clir o'r gyfraith sy'n ymwneud â phwerau awdurdodau cyhoeddus i wella tir preifat.<sup>15</sup>
- 2.27 Yn unol â hynny, daethom i'r casgliad y dylai'r Bil Cynllunio (Cymru) newydd gynnwys, hyd y gellir, yr holl deddfwriaeth sylfaenol sy'n ymwneud â'r canlynol:
- 1) cynllunio a rheoli datblygu (gan gynnwys gwaith sy'n effeithio ar adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth);
  - 2) darparu seilwaith a gwelliannau eraill;
  - 3) hysbysebion awyr agored a gwaith ar goed a warchodir;
  - 4) gwaith gwella ac adfywio a arweinir gan y sector cyhoeddus (i'r graddau y mae o fewn Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar hyn o bryd);
  - 5) darpariaethau atodol ac amrywiol.
- 2.28 Nodwyd hefyd y posibilrwydd y byddai Bil Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yn cael ei gyhoeddi tua'r un adeg â'r Bil Cynllunio (Cymru). Byddai hynny'n deddfwriaeth gydgrynhoi yn bennaf, heb ddiwygio technegol.<sup>16</sup>
- 2.29 Gwnaethom hefyd ystyried, ond gwrthod, y posibilrwydd o gynnwys y darpariaethau statudol sy'n ymwneud â chefn gwlad a hawliau tramwy mewn Bil Cynllunio newydd;

---

<sup>13</sup> Papur Ymgynghori, paragraffau 3.18 i 3.46.

<sup>14</sup> Papur Ymgynghori, paragraffau 3.47 i 3.62.

<sup>15</sup> Papur Ymgynghori, paragraffau 3.63 i 3.82.

<sup>16</sup> O ran y gwahaniaeth rhwng cydgrynhoi a'n cysyniad o godeiddio, gweler *Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru*, para 2.14.

prynu gorfodol a digolledu; sylweddau peryglus; prosiectau seilwaith mawr; cymeradwyaeth o dan y Rheoliadau Adeiladu; ac amrywiol godau hunangynhwysol eraill.<sup>17</sup>

- 2.30 Rydym yn ystyried yn gryno unwaith eto gwmpas yr ymarfer codeiddio ym Mhennod 4 a Phennod 16.<sup>18</sup>

### Diwygiadau technegol i'r ddeddfwriaeth

- 2.31 Yn y Papur Cwmpasu, nodwyd pedwar categori (a oedd yn gorgyffwrdd i ryw raddau) o welliannau technegol posibl i'r fframwaith deddfwriaethol presennol:

- 1) egluro lle mae diffyg eglurder neu gysondeb o ran geiriau ac ymadroddion a ddefnyddir yn y ddeddfwriaeth;
- 2) gwelliannau i symleiddio gweithdrefn neu ddiwygio anghysondebau;
- 3) diwygiadau lle nad yw darpariaethau'n adlewyrchu arfer sefydledig;
- 4) rhesymoli neu ddileu darpariaethau dyblygol, darpariaethau darfodedig neu ddarpariaethau heb eu cychwyn.

- 2.32 Roedd yr ymatebwyr i'r Papur Cwmpasu yn cefnogi'r categorïau hynny ar y cyfan, a gwnaethant awgrymiadau amrywiol ynglŷn â phynciau penodol, a ystyriwyd gennym yn y penodau yn Rhan Dau o'r Papur Ymgynghori sy'n ymwneud â phynciau penodol.<sup>19</sup> Mabwysiadwyd ymagwedd debyg yn yr Adroddiad hwn.

- 2.33 Awgrymwyd hefyd gennym y byddai'n briodol adolygu'r cydbwysedd rhwng deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth ond, ar y cyfan, roeddem o'r farn bod y cydbwysedd presennol yn gywir yn gyffredinol.<sup>20</sup> A chynigiwyd rhai diwygiadau a fyddai'n gofyn am ddiwygio is-ddeddfwriaeth – yn enwedig yn y meysydd hynny o gyfraith cynllunio sy'n cael eu llywodraethu gan is-ddeddfwriaeth yn bennaf (yn arbennig hysbysebion a choed<sup>21</sup>).

- 2.34 Ystyriwyd yn betrus p'un a fyddai'n ddymunol codeiddio cyfraith achosion – hynny yw, egwyddorion sy'n deillio o benderfyniadau barnwrol. Daethom i'r casgliad y byddai hyn yn briodol weithiau. Fodd bynnag, yn unol â'r petruster a fynegwyd yn y Papur Cwmpasu, a chan nifer o'r rhai a ymatebodd iddo, daethom i'r casgliad yn gyffredinol nad yw codeiddio cyfraith achosion yn fuddiol ag y gallai ymddangos ar yr olwg gyntaf.<sup>22</sup>

- 2.35 Yng ngoleuni'r egwyddorion cyffredinol hynny, yn Rhan Dau o'r Papur Ymgynghori amlinellwyd y gyfraith bresennol mewn perthynas â phob un o'r prif feysydd pwnc ym

---

<sup>17</sup> Yn ymwneud â seilwaith trafnidiaeth, cartrefi symudol, gwrychoedd uchel, a llongdrylliadau a warchodir.

<sup>18</sup> Gweler **paragraffau 4.28 i 4.48 ac 16.98 i 16.111**.

<sup>19</sup> Papur Ymgynghori, paragraffau 4.4 i 4.28.

<sup>20</sup> Papur Ymgynghori, paragraffau 4.39 i 4.50.

<sup>21</sup> Papur Ymgynghori, Penodau 14 a 15.

<sup>22</sup> Papur Ymgynghori, paragraffau 4.51 i 4.98.

maes cyffredinol cyfraith cynllunio, a chyflwynwyd 186 o ddiwygiadau posibl, ar ffurf Cwestiynau Ymgynghoriad. Cafodd y pynciau eu grwpio'n bedair Pennod ar ddeg, fel a ganlyn:

- |   |  |
|---|--|
| 5. Darpariaethau rhagarweiniol              | 13. Gwaith sy'n effeithio ar adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth |
| 6. Llunio'r cynllun datblygu                |  |
| 7. Yr angen am gais cynllunio               | 14. Hysbysebion awyr agored  |
| 8. Ceisiadau i'r awdurdod cynllunio         | 15. Gwaith ar goed a warchodir   |
| 9. Ceisiadau i Weinidogion Cymru            | 16. Gwella, adfywio ac adnewyddu   |
| 10. Darparu seilwaith a gwelliannau eraill  | 17. Heriau yn yr Uchel Lys   |
| 11. Apeliadau a darpariaethau atodol eraill | 18. Darpariaethau amrywiol ac atodol                                     |
| 12. Datblygu heb awdurdod                   |  |

2.36 Mae'r penodau yn Rhan Dau o'r Adroddiad hwn yn dilyn yr un drefn.

#### **Ymatebion i'r Papur Ymgynghori**

2.37 Cyhoeddwyd y Papur Ymgynghori ym mis Tachwedd 2017, gyda chyfnod o bedwar mis i ymateb, a ddaeth i ben ar Ddydd Gŵyl Ddewi, 1 Mawrth 2018. Yn y Bennod ddilynol, rydym yn disgrifio'r ymgynghoriad a gynhaliwyd, a chymeriad cyffredinol yr ymatebion a ddaeth i law.

